# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant,; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg

**Arsyllwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Davies a Martyn Holland

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Pennaeth Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## MUNUD O DAWELWCH

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y ddau drychineb diweddar yng Nghorwen a'r bywydau a gollwyd a safodd yr aelodau mewn teyrnged ddistaw.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Nid oedd unrhyw ddatganiad o gysylltiad wedi'i godi.

## 3 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys wedi'i godi.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2015.

Materion yn Codi – Tudalen 6, Eitem 5: Cynigion yn gysylltiedig ag Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn – adroddodd y Pennaeth Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd ar alw i mewn y penderfyniad ar yr eitem hon a gafodd ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 16 Tachwedd 2015. Roedd cynnig i

gyfeirio’r mater yn ôl i’r Cabinet wedi cael ei drechu ac mae penderfyniad y Cabinet yn sefyll.

Cydnabu’r Cynghorydd Eryl Williams fod craffu yn rhan annatod o’r broses a chafwyd rhywfaint o drafodaeth am sut y gallai’r Cabinet a Chraffu weithio’n well gyda’i gilydd i sicrhau fod craffu ar faterion pwysig yn fwy effeithiol. Awgrymwyd cyfeirio’r mater hwn at Grŵp y Cadeiryddion a’r Is-Gadeiryddion Craffu i’w ystyried ymhellach.

***PENDERFYNWYD*** *fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2015 yn cael eu cymeradwyo fel rhai cywir a’u llofnodi gan yr Arweinydd.*

**5 CYNLLUN CORFFORAETHOL – DIWEDDARIAD ARIANNOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol y Cynllun Corfforaethol.

Lansiwyd y Cynllun Corfforaethol yn 2012 ac roedd yn gosod allan raglen uchelgeisiol o fuddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion, ffyrdd, gofal cymdeithasol a moderneiddio. Roedd cyflawni’r Cynllun yn dibynnu ar sicrhau cyllideb i dalu am fenthyca a chynnal cronfeydd arian parod ynghyd â grant llywodraeth i helpu i gyflawni rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac yn y blynyddoedd cynt roedd grant llywodraeth wedi helpu i dalu am fuddsoddiad priffyrdd ychwanegol hefyd. Roedd y Cynllun wedi datblygu ers 2012 ac er mwyn gallu ei fforddio, bu’n rhaid ei ddiwygio rywfaint ochr yn ochr â newidiadau mewn rhagdybiaethau cynllunio.

Manylodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar elfennau ariannol y Cynllun Corfforaethol, yn cynnwys rhagdybiaethau allweddol, gan gyfeirio’n arbennig at -

- gytundeb y Cyngor i roi blaenoriaeth i gyflawni’r Cynllun yn y cylchoedd cyllideb nesaf
- newidiadau allweddol i’r Cynllun gwreiddiol fyddai cael gwared ar y prosiect Swyddfeydd a gostyngiad yn amcan gost y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
- cytunodd y Cabinet ym mis Mehefin 2015 i gynyddu gwariant Priffyrdd £3.2m i £18.4m drwy ddyraniad ychwanegol o £800k y flwyddyn
- y sefyllfa ddiweddaraf am gyllido rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw y derbyniwyd cadarnhad yn ddiweddar gan LlC fod y Rhaglen Amlinellol Strategol a gyflwynwyd ym Mehefin 2015 yn dderbyniol ac y byddai pob cynllun (yn cynnwys y prosiect ysgol ffydd, Ysgol Tref Rhuthun, Ysgol Carreg Emlyn, ardaloedd Llanfair/Pentrecelyn ac Ysgol Pendref yn Ninbych) yn cael eu cyllido ar 50%
- cyfanswm yr amcan gostau cyfalaf oedd £126m ac roedd ciplun o’r llif arian presennol a’r gwariant hyd at 2019/20 wedi’i gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad.

I gloi dywedodd y Cynghoyrdd Thompson-Hill fod y cynllun yn un cadarn ac, â phopeth arall yn gyfartal, fod adnoddau yn eu lle i barhau i allu cyflawni’r Cynllun.

Wrth ystyried yr adroddiad trafodwyd y materion canlynol –

- Ailadroddodd y Cynghorydd Eryl Williams y ffaith fod Sir Ddinbych ar flaen y gad o ran buddsoddi mewn adeiladau ysgol a bod y strategaeth yn dwyn ffrwyth erbyn hyn gyda LlC yn ariannu pob cynllun ar 50%. Canmolodd y cyngor blaenorol am eu gweledigaeth hirdymor i ysgolion a'r cyngor presennol am barhau â'r buddsoddiad hwnnw - dywedodd fod sefyllfa Sir Ddinbych yn cyferbynnu â chynghorau eraill nad oeddent mewn sefyllfa i fuddsoddi.
- eglurwyd fod y rhagdybiaeth wreiddiol ar gyfer yr ysgol ffydd yn seiliedig ar 15% o gyllid y cyngor a chyllid o 100% i ysgolion ardal Rhuthun - drwy gyfuno'r elfennau hyn a chytuno ar becyn ariannu newydd o 50% gyda LlC, roedd y cyngor bellach yn elwa ar gyllid ychwanegol o £6m
- gofynnwyd am sicrhad ynghylch cyflawni'r prosiectau tai gofal ychwanegol. Adroddodd y Cynghoryrdd Bobby Feeley am yr amserlenni a'r cynnydd a wnaed a dywedodd fod cynnydd yn dibynnu ar bartneriaid allanol hefyd
- tynnodd yr aelodau sylw at yr angen i gadw llygad manwl ar y prosiectau er mwyn osgoi llithriad ac adroddodd y Cynghorwyr Eryl Williams a Julian Thompson-Hill ar waith y Bwrdd Moderneiddio Addysg yn sicrhau fod y prosiectau ysgolion yn cael eu cyflwyno'n brydlon – byddai adroddiad cynnydd ar y prosiect ysgol ffydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Briffio nesaf y Cyngor
- atebodd y Cynghorydd David Smith gwestiynau am gyllid priffyrdd a chadarnhaodd fod £800k ychwanegol wedi'i ddyrannu i briffyrdd i geisio cynnal safonau i ffyrdd blaenoriaeth ond er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol, ei bod yn debygol y byddai lefelau'n dirywio'n araf
- wrth ymateb i gwestiynau ar fenthyca darbodus, cadarnhaodd y Cynghorydd Thompson-Hill fod prynu cymhorthdal y PFI a HRA wedi arwain at enillion ariannol. Roedd dangosyddion darbodus yn cael eu cytuno arnynt yn flynyddol gan y cyngor yn cynnwys y gymhareb fenthyca ac roedd yn gyffyrddus â lefel bresennol y benthyca. Nodwyd fod gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ran mewn monitro'r ffigyrau hyn hefyd.

Nododd y Cabinet nad oedd pob un o'r prosiectau yn y Cynllun Corfforaethol fod i gael eu cwblhau yn ystod tymor presennol y cyngor a holodd a oedd unrhyw amddiffynfeydd yn eu lle i sicrhau y byddai'r Cynllun yn cael ei gyflawni'n llawn yn dilyn yr etholiadau lleol yn 2017. Dywedwyd wrth y Cabinet, yn seiliedig ar yr amcanestyniadau presennol, y byddai'r rhan fwyaf o brosiectau wedi symud ymlaen gryn dipyn ac felly byddai rhwymedigaethau cytundebol arnynt i barhau. Ond, roedd perygl o lithriad, yn enwedig o ran y tai gofal ychwanegol. Teimlai'r Cabinet felly y dylid adolygu'r mater hwn yn ofalus a gwneud pob ymdrech i sicrhau fod y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflawni'n llawn. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at wahanol gamau a chymhlethdodau'r prosiectau yn y Cynllun, yr her o'u gweithredu, a'i farn ef y dylai'r Cabinet gymryd mwy o ran yn hyn. Cytunwyd y byddai'r Cabinet yn cael adroddiadau cynnydd rheolaidd ar y gwahanol brosiectau.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi cadernid y Cynllun a'r mecanweithiau a oedd yn eu lle i oruchwylio a sicrhau ei fod yn mynd yn ei flaen yn llwyddiannus. Amlygodd y Cadeirydd y penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd a wnaed yn ddiweddar ac roedd yn falch o dynnu sylw at y gwahaniaeth cadarnhaol y byddai cyflawni'r Cynllun yn ei wneud i'r sir.

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *fod y Cabinet yn cadarnhau'r rhagdybiaethau a nodwyd o fewn y Cynllun, a*

(b) *bod yr aelodau'n gofyn am adroddiadau pellach i'r Cabinet ym mis Ionawr 2016 ac yn rheolaidd wedi hynny ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar bob un o'r prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 6 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghoyrdd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllideb y cytunwyd arni. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- rhagwelid tan wariant net o £0.298m i'r cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- cyflawnwyd 91% o'r arbedion y cytunwyd arnynt hyd yma (targed £7.3m) a rhoddwyd manylion hefyd am y cynnydd tuag at gyflawni'r 9% sy'n weddill
- tynnwyd sylw at amrywiannau allweddol o'r cyllidebau neu'r targedau arbedion a oedd yn gysylltiedig â meysydd gwasanaeth unigol, a
- chafwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (yn cynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Codwyd y materion canlynol mewn trafodaeth –

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at y polisi o gynnig hen adeiladau ysgol i'r gymuned leol fel dewis cyntaf ond tynnodd sylw at nifer yr adeiladau ysgol sy'n wag ers tro erbyn hyn a'r costau sydd ynghlwm â hyn – felly roedd gwaith ar y gweill i dynhau'r polisi a sicrhau nad oedd y cynnig i'r gymuned yn aros yn benagored
- Eglurodd y Cynghorydd David Smith oblygiadau'r gostyngiadau yn incwm ffioedd gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Gorllewin Cymru a'r dyraniad buddsoddiad a lefel y gwaith yn yr ardal hon. Dywedodd y Cynghorydd Huw Jones fod yr A5 yn arbennig angen buddsoddiad
- Cyfeiriwyd at y cynnydd a wnaed i gyflawni'r 9% (£638k) o arbedion sy'n weddill ar gyfer 2015/16 gyda rhai i'w cyflawni yn 2016/17 – byddai unrhyw ddiffyg a achosir gan oedi mewn gweithredu yn cael ei gwrdd gan ffynonellau eraill yn y gwasanaethau dan sylw.

Ymatebodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill hefyd i gwestiynau a godwyd gan aelodau nad oeddent yn y Cabinet, fel a ganlyn -

- gwnaed oddeutu £900 o arbedion drwy beidio â thalu costau teithio i aelodau oedd yn mynd i gyfarfodydd fel arsyllwyr
- roedd y cytundeb fframwaith a ddefnyddir ar gyfer athrawon llanw wedi cyflwyno arbedion
- manylodd ar y risgiau sy'n dod i'r amlwg ynghylch rhwymedigaethau'r cyngor sy'n gysylltiedig â hawliadau hanesyddol i'r cyn Mutual Municipal Insurance Company
- dywedodd fod datganiad i'r wasg wedi'i wneud am fanteision terfynu'r cytundeb PFI ond bod y telerau penodol yn aros yn gyfrinachol - yn ogystal ag arbedion sylweddol, rodd y prynu allan yn rhoi mwy o hyblygrwydd dros yr adeiladau a'r

meysydd parcio ac roedd gwaith wedi dechrau ar archwilio posibiliadau i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Adroddodd y Cynghorydd Bobby Feeley ei bod yn paratoi taflenni i'r preswylwyr lleol i'w diweddaru am y prynu PFI allan a materion cysylltiedig wrth iddynt fynd rhagddynt

- cadarnhawyd y byddai unrhyw rewi rhent yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru yn cael effaith ac y byddai'n cael ei gynnwys yng nghyllideb y Cyfrif Refeniw Tai.

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y sefyllfa ariannol gymharol iach yn y cyfnod hwn yn y flwyddyn ariannol a'i fod yn hyderus o gael cyllideb fantoledig. Cyfeiriodd at Ddatganiad Ariannol yr Hydref a oedd ar fin digwydd a'r goblygiadau i Gymru a mynegodd bryderon y gallai llywodraeth leol golli allan i elfennau eraill o'r sector cyhoeddus.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a osodwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau y newidiadau canlynol -

- eitem ychwanegol ar gyfer mis Rhagfyr ar Ddatblygu West Parade, Y Rhyl
- eitem ychwanegol ar gyfer mis Ionawr ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- eitem ychwanegol ar gyfer mis Chwefror ar y Rhaglen Gyfalaf
- cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych wedi'i hail-drefnu o fis Rhagfyr i fis Chwefror
- adroddiad cynnydd ar brosiectau'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer mis Ionawr ac yn rheolaidd wedi hynny fel y cytunodd y Cabinet ynghynt ar yr agenda

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 a.m.